PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 18 MEDI 2018

Yn bresennol: Aelodau Annibynnol: Ian Arundale (Cadeirydd)

Councillors Bale, Cowan, Cunnah, Howells, McGarry, Singh a/ac Walker

23 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Chris Lay, Gavin McArthur, David Price a D. Hugh Thomas.

24 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y buddiannau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Y Cyng. Bale | Eitem 4 | Llywodraethwr Ysgol |
| | Eitem 5 | Aelod o'r Gronfa Bensiwn |
| Y Cyng. Cowan | Eitem 4 | Llywodraethwr Ysgol |
| Y Cyng. Cunnah | Eitem 4.1.2 | Llywodraethwr Ysgol |
| | Eitem 5.2 | Aelodau o'r Gronfa Bensiwn |
| Y Cyng. Howells | Eitem 4.1.2 | Llywodraethwr Ysgol |
| | Eitem 5.2 | Aelodau o'r Gronfa Bensiwn |
| Y Cyng. McGarry | Eitem 4.1 | Llywodraethwr Ysgol |
| | Eitem 5 | |
| Y Cyng. Walker | Eitem 4 | Llywodraethwr Ysgol |

25 : COFNODION

Cadarnhaodd y Pwyllgor fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2018 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

26 : NICK BATCHELAR, CYFARWYDDWR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - ADRODDIAD BLYNYDDOL AM LYWODRAETHU YSGOLION (GAN GYNNWYS BALANSAU A DIFFYGION)

Croesawyd y Cyfarwyddwr Addysg i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwr i gyflwyno dau adroddiad: adroddiad am 'Amgylchedd Rheoli Mewnol' y gyfarwyddiaeth ac adroddiad am 'Lywodraethu mewn Ysgolion a Balansau Ysgolion'.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y gyfarwyddiaeth yn gyfrifol am addysg y blynyddoedd cynnar, addysg oedran statudol, addysg chweched dosbarth a'r gwasanaeth ieuenctid, gyda chyllideb net o £256.425 miliwn, y mae £230.923 miliwn o honno'n cael ei ddyrannu i'r 127 o ysgolion yng Nghaerdydd.

Amlinellodd yr adroddiad strwythur y gyfarwyddiaeth, y saith blaenoriaeth strategol allweddol, ymateb rheoli risg y gyfarwyddiaeth a'r trefniadau a'r ymagwedd o ran Datganiad Sicrwydd yr Uwch Dîm Rheoli. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o'r broses o fonitro a llunio adroddiadau monitro archwiliadau mewnol yr ymgymerwyd â nhw yn ystod 2017/18 a 2018/19.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr ei adroddiad blynyddol am lywodraethu ysgolion a balansau ysgolion. Rhoddodd yr adroddiad fanylion yr archwiliadau a gynhaliwyd mewn ysgolion yn ystod 2017/18, dadansoddiad o falensau ariannol ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2018 a balansau ysgolion ar gyfer y chwe blynedd blaenorol. Bu cynnydd ym malansau dros ben cyffredinol ysgolion o £4.242 miliwn ar 31 Mawrth 2017 i £7.319 miliwn ar 31 Mawrth 2018. Roedd hyn yn rhannol oherwydd grant hwyr gan Lywodraeth Cymru a dderbyniwyd yn 2018/19 ond a oedd i'w wario yn 2019/20. Mae balansau 59 ysgol yn uwch na lefel gymeradwy Llywodraeth Cymru (£50,000 ar gyfer ysgolion cynradd a £100,000 ar gyfer ysgolion uwchradd). Mae gan y Cyngor y pŵer i hawlio rhan neu'r cyfan o'r balans dros ben yn ôl os nad oes gan y corff llywodraethu gynllun cadarn i'w wario.

Croesawodd y Cyfarwyddwr y defnydd o'r offeryn Hunanasesu Rheoli Risg a'r archwiliadau ysgol thematig a rhoddodd sicrwydd ynglŷn â defnyddio pwerau ymyrryd i ysgolion lle mae rheolaeth ariannol a llywodraethu yn wael. Atgoffwyd yr aelodau y tynnwyd dyraniad Ysgol Uwchradd y Dwyrain ac Ysgol Uwchradd Cantonian yn ôl a bod digon o gynnydd wedi'i wneud er mwyn ystyried dyraniad iddynt yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Roedd yr aelodau o'r farn y dylid cynnwys mwy o wybodaeth yn yr adroddiad am yr hyn mae'r AALl yn ei wneud i herio risgiau a nodir, e.e. y risg nad yw Consortiwm Canolbarth y De yn darparu gwasanaethau effeithiol sy'n herio ac yn cynorthwyo ysgolion Caerdydd i wella ac nad yw cyrhaeddiad yn gwella mor gyflym ag sy'n ofynnol. Nododd y Cyfarwyddwr y gallai gynnig sicrwydd llwyr bod Caerdydd yn herio Consortiwm Canolbarth y De, ac ymrwymodd o roi rhagor o fanylion yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

- Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwr roi sylwadau am gyllidebau ysgolion sydd dros ben. Nododd y Cyfarwyddwr nad oedd y pryderon a nodwyd yn ymwneud ag unrhyw ysgol yn benodol, ond tynnodd sylw at sgwrs genedlaethol gan y llywodraeth a leisiwyd gan Weinidog y Cabinet o ran rheoli balansau dros ben.

- Nododd aelodau nad yw penaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethu fel arfer yn cael eu gwahodd i ymddangos gerbron y Pwyllgor mewn achosion lle rhoddir barn sicrwydd brin. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Addysg ystyried ymagwedd i atgyfnerthu negeseuon a disgwyliadau'r Pwyllgor Archwilio sy'n cydbwyso effaith a ffocws agenda'r Pwyllgor Archwilio.

- Cododd aelodau bryderon am werthuso perfformiad ym Model Comisiynu'r

Gwasanaeth Ieuenctid, a gofynnwyd am sicrwydd o ran tryloywder y trefniadau. Nododd y Cyfarwyddwr fod yr ymagwedd a gymerwyd wedi gweithio'n dda mewn rhai meysydd ond nid cystal mewn meysydd eraill a bod y model comisiynu'n destun adolygiad ar hyn o bryd. Gofynnodd y Cadeirydd i adroddiad am Fodel Comisiynu'r Gwasanaeth Ieuenctid gael ei gyflwyno i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol er mwyn ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan yr aelodau.

- Bu'r aelodau'n cymeradwyo'r cynnydd a wnaed o ran cynnal a chadw adeiladau ysgolion, gan fyfyrio ar reoli risg, effaith yr adeiladau hŷn ar gyllidebau refeniw a diffyg cyllid cyrff llywodraeth at y diben hwn. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y Gyfarwyddiaeth wedi adnewyddu'r Llawlyfr Cynnal a Chadw i Ysgolion ac wedi cefnogi penodi Swyddogion Iechyd a Diogelwch ac mae hyn, ynghyd â rheoli blaenoriaethu cyllidebau cynyddol, yn golygu bod llywodraethu'r gyllideb adnewyddu asedau yn gryfach nag yn y gorffennol. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod £25 miliwn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i'r gyllideb adnewyddu asedau dros y 4 blynedd nesaf. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgolion wedi cydnabod bod rhai adeiladau ysgol mewn cyflwr gwael ac er mwyn adlewyrchu hyn, cytunwyd ar newid yn y fformiwla ariannu.

- Codwyd pryderon gan aelod am y dryswch rhwng ESTYN a Llywodraeth Cymru ynglŷn â graddau categoreiddio ysgolion. Roedd y Cyfarwyddwr yn rhannu'r pryderon am ddiffygion y broses gategoreiddio, gan gyfeirio at adolygiad Donaldson o ESTYN a gwestiynodd y penderfyniad i beidio â defnyddio dyfarniadau crynodol mwyach.

- Wrth ymateb i bwynt a godwyd gan y Pwyllgor o ran balansau ysgolion, nododd swyddogion y cytunodd y Fforwm Cyllideb Ysgolion ar drothwy ganrannol o 4% o'r gyllideb gyffredinol. Bu gan ugain ysgol gyllid dros ben o fwy na 4% ers sawl blwyddyn ac mae rhai ysgolion yn mynd yn uwch na'r lefel honno yn gyson.

- Gofynnodd aelodau a oedd unrhyw risg wedi cael ei nodi fel rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ynglŷn â'r twf yn nifer y disgyblion yn cael effaith ar ddilyniannu'r rhaglen ac a oedd unrhyw risg gysylltiedig. Nododd y Cyfarwyddwr y bydd lleoedd ar gael wrth i'r ddinas dyfu. Mae rhywfaint o sicrwydd rhesymol o ran nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd. Mae cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif yn seiliedig ar ddata cyfredol ac mae'r Cyfarwyddwr yn ymwybodol o le mae angen lleoedd ysgol. Mae'r rhaglen yn gyd-ddibynnol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae trafodaethau o ran cyflwyno fesul cam yn parhau ac mae peth ansicrwydd ynglŷn â hyn o hyd. Mae rhywfaint o ansicrwydd am y Cynllun Datblygu Lleol o ran materion polisi a'r cydbwysedd rhwng addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

PENDERFYNWYD:

(1) y dylai nodi'r adroddiad;

(2) y dylai'r Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Addysg ystyried ymagwedd i atgyfnerthu negeseuon a disgwyliadau'r Pwyllgor Archwilio i benaethiaid a chadeiryddion cyrff llywodraethu sy'n cydbwyso effaith a ffocws agenda'r

Pwyllgor Archwilio;

(3) y dylid cyflwyno adroddiad am Fodel Comisiynu'r Gwasanaeth Ieuenctid i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol er mwyn ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan yr aelodau.

27 : ANDREW GREGORY, CYFARWYDDWR CYNLLUNIO, TRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD – DIWEDDARIAD AM YR AMGYLCHEDD RHEOLI MEWNOL

Croesawyd Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Rhoddwyd cyflwyniad i'r pwyllgor am 'Amgylchedd Rheoli Mewnol' y gyfarwyddiaeth.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am y prosesau sydd ar waith i reoli'r risgiau corfforaethol a arweinir gan y gyfarwyddiaeth, gan gynnwys rheoli gwastraff, ansawdd aer, diogelwch y ddinas, newid yn yr hinsawdd a diogelwch ynni.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth wrthi'n adolygu Datganiad Sicrwydd yr Uwch Dîm Rheoli, gan nodi defnydd cryf cyffredinol o lywodraethu da ar draws y Gyfarwyddiaeth. Nodwyd y sefyllfa wrth roi argymhellion o archwiliadau mewnol ar waith hefyd. Cafodd yr aelodau wahoddiad i roi sylwadau, gofyn am eglurhad pellach neu ofyn cwestiynau. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd aelodau fod yr adroddiad yn cynnwys manylion y trefniadau llywodraeth oedd ar waith ond nad oedd yn cynnwys unrhyw wybodaeth am reoli perfformiad, gwasanaeth cwsmeriaid neu ymgysylltu. Nododd y Cyfarwyddwr fod y Gyfarwyddiaeth yn cyflawni ei nodau'n fras gyda'r mwyafrif o dargedau wedi'u graddio'n wyrdd neu'n wyrdd/oren. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau mai nod y gwasanaeth o ran targed ailgylchu Llywodraeth Cymru yw cyflawni cyfradd ailgylchu o 64% erbyn 2020 sy'n ymrwymiad heriol a sylweddol.
- Nododd aelodau mai un o'r blaenoriaethau strategol i'r Cynllun Datblygu Lleol oedd darparu tai. Fodd bynnag, prin roedd y sôn am ddarpariaeth ar gyfer y gymuned Sipsiwn/teithwyr o ran cynnydd neu amserlen i'w chyflwyno. Nododd y Cyfarwyddwr fod trafodaethau â'r tirfeddianwyr a Llywodraeth Cymru'n parhau.

- Cododd aelod bryderon am ddiffyg tir yn cael ei nodi ar gyfer darparu lle claddu yn y CDLl. Nododd y Cyfarwyddwr fod Pennaeth y Gwasanaeth Profedigaeth bellach wedi cynnal adolygiad o'r Strategaeth Brofedigaeth ac wedi nodi angen cynyddol am ddarpariaeth gladdu. Byddai unrhyw gais am safle claddu newydd yn cael ei asesu o dan gyfraith gynllunio a rhaid bod penderfyniad yn gadarn. Nododd y Cyfarwydd fod yr adolygiad wedi tynnu sylw at y ffaith fod angen mwy o le claddu yn y ddinas a bod angen ymateb ar unwaith.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

28 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD – gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth am yr eitemau busnes ganlynol ar y sail y gellid, oherwydd natur y busnes i'w drafod, ddatgelu gwybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Chategorïau 1 a 3 Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) Cymru 2007 i aelodau'r cyhoedd petaent yn bresennol yn ystod y trafodaethau.

'Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal yr wybodaeth honno).'

29 : DIWEDDARIAD CYFRINACHOL

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad cyfrinachol am fater o rwymedigaeth ddigwyddiadol a nodwyd yn Natganiad Cyfrifon 2017/18.

30 : DIWEDDARIAD ARIANNOL GAN GYNNWYS MATERION CYDNERTHU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau am y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â monitro'r gyllideb yn y flwyddyn ariannol bresennol, a rhoddodd ddiweddariad ar y gwaith paratoi ar gyfer cyllideb 2019/20 a'r tymor canolig.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y disgwylid i Adroddiad Monitro Cyllidebau Mis 4 gael ei ystyried gan y Cabinet ar 20 Medi 2018. Rhagfynegodd yr adroddiad y byddai sefyllfa gytbwys gyda phwysau a diffyg ariannol yn erbyn targedau arbedion cyllidebol yn cael eu gwrthbwyso gan arbedion rhagamcanol ar gyllid cyfalaf, arian dros ben disgwyliedig trwy gasglu'r Dreth Gyngor ac adenillion Ardrethi Annomestig o eiddo'r Cyngor. Rhagfynegir y bydd gorwariant o £5 miliwn ar gyllidebau'r Gyfarwyddiaeth; fodd bynnag, rhagwelir y caiff hyn ei leihau gan gamau rheoli erbyn ddiwedd y flwyddyn. Caiff y rhain eu gosod yn rhannol yn erbyn tanwariant a ragamcenir mewn cyfarwyddiaethau eraill a chan y gyllideb wrth gefn gyffredinol o £3 miliwn.

Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r sefyllfa o ran Mis 4 mewn cyfarwyddiaethau; diffyg arbedion o £2.8 miliwn wedi'i ragfynegi yn erbyn targed arbedion y cyfarwyddiaethau o £14,296 a'r amrywiad yn y rhaglen gyfalaf gwerth £109 miliwn o £2.7 miliwn oherwydd llithriant.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau y cafodd Cod Materion Ariannol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ei ddiweddaru ym mis Rhagfyr 2017. Mae'n ofyniad fel rhan o'r cod i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Gyfalaf sy'n amlinellu'r cyd-destun tymor hir lle mae penderfyniadau ynglŷn â gwariant cyfalaf a buddsoddiad yn cael eu gwneud. Amlinellodd yr adroddiad am Strategaeth y Gyllideb gydrannau allweddol Strategaeth gyfalaf ac i ba raddau y mae hyn eisoes yn cael ei adlewyrchu yn ymagwedd y Cyngor at bennu cyllidebau. Bydd y Strategaeth gyfalaf yn rhan o'r Adroddiad Cyllideb i'w ystyried ym mis Chwefror 2019.

Cyfeiriodd aelodau at gaffael hen safle Tosyn 'R' Su ym Mae Caerdydd. Nododd y Pennaeth Cyllid fod rhai derbynebion cyfalaf heb eu dyrannu'n cael eu defnyddio i

ariannu’r gwariant hwn. Mae swyddogion cyllid yn cydweithio’n agos â’r Cyfarwyddwr Datblygiad Economaidd i sicrhau bod yr arian angenrheidiol ar gael. Gofynnodd aelod am gadarnhad na fydd hyn yn effeithio’n andwyol ar flaenoriaethau eraill. Nododd y Pennaeth Cyllid y bydd y Strategaeth Gyllid yn helpu i ddarparu’r lefel honno o dryloywder.

PENDERFYNWYD – y dylai’r Pwyllgor nodi’r sefyllfa ddiweddaraf o ran monitro cyllidebol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â pharatoi'r gyllideb ar gyfer 2019/20 a’r tymor canolig.

31 : DATGANIAD CYFRIFON TERFYNOL AR GYFER 2017-18 (GAN GYNNWYS AGS)

Derbyniodd y Pwyllgor fersiwn wedi’i harchwilio o Ddatganiad Cyfrifon 2017/18 ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd, Awdurdod Harbwr Caerdydd, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg a’r Datganiad Llywodraeth Blynyddol. Derbyniodd y Pwyllgor y Datganiad Cyfrifol a Llywodraethu Blynyddol drafft ar 26 Mehefin 2018 a chadarnhaodd swyddogion yr ymdriniwyd â materion a godwyd yn y cyfarfod hwnnw gydag ymatebion a nodwyd yn atodiad 4 yr adroddiad.

Trafodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor a wnaeth y sylwadau canlynol:

- Cyfeiriodd aelodau at gategorïau’r dyledwyr a restrir yn yr adroddiad. Gofynnwyd i’r swyddogion a oedd modd adennill gordaliadau gwerth £1 miliwn o Fudd-dal Tai. Nododd y swyddogion fod yr awdurdod yn ceisio adennill pob gordaliad, ond gelir gwneud hyn fesul cam. Gofynnwyd i’r aelodau nodi bod y ffigur gordaliad yn codi oherwydd cyfrifyddu diwedd blwyddyn.
- Nododd Swyddfa Archwilio Cymru y byddai adroddiad anghymwys yn cael ei gyhoeddi am bob un o’r tair set o gyfrifon.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, rhoddwyd gwybod i’r Pwyllgor na fu unrhyw drafodion benthyciad gyda Bws Caerdydd yn ystod y flwyddyn hyd yma. Nododd y swyddogion y bydd unrhyw fenthyciad posib i Bws Caerdydd yn dilyn diwydrwydd dyladwy priodol.

- Gofynnwyd am esboniad o ran y rhwymedigaethau gohiriedig ar gyfer Rhentu Doeth Cymru. Nododd y swyddogion fod yr incwm a dderbynnir gan Rhentu Doeth Cymru ar gyfer cyfnod pum mlynedd ac mae angen ei drin yn unol â hynny yn y cyfrifon.

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd terfyn mewnol ar lefel y cronfeydd wrth gefn a gedwir gan yr awdurdod a sut caiff y cronfeydd wrth gefn eu hadolygu. Atgoffwyd y Pwyllgor gan y swyddogion bod gan Gaerdydd lefel cymharol is o gronfeydd wrth feincnodi cronfeydd gydag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau wedi cyhoeddi Polisi Cronfeydd Wrth Gefn sy’n nodi bod angen lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn cyffredinol ar yr awdurdod. Mae’r Cyngor wedi gallu creu cronfa wrth gefn ar gyfer Cyllideb Strategol a gaiff ei defnyddio dros y 2 neu 3 blynedd nesaf.

PENDERFYNWYD – y dylid nodi Datganiad Cyfrifon 2017/18 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

32 : YMATEB Y PWYLLGOR ARCHWILIO I YMGYNGHORIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU AR RADDFEYDD FFIOEDD 2019/20 (EITEM LAFAR)

Nododd y Pennaeth Cyllid fod ymatebion wedi'u derbyn gan y Pwyllgor Archwilio i ymgynghoriad Swyddfa Archwilio Cymru ar raddfeydd ffioedd 2019/20. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cyllid lunio llythyr i Swyddfa Archwilio Cymru gan osod ymateb ffurfiol y Pwyllgor i'r ymgynghoriad.

PENDERFYNWYD – y dylid y Pennaeth Cyllid lunio llythyr i Swyddfa Archwilio Cymru gan osod ymateb ffurfiol y Pwyllgor i'r ymgynghoriad.

33 : RHEOLI RISGIAU CORFFORAETHOL (CHŴL 1)

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad am y sefyllfa o ran rheoli risgiau ar ddiwedd chwarter 1, 2018/19.

Cafodd yr aelodau wybod yr adroddwyd am 296 o risgiau cyfarwyddiaeth i'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) ym mis Medi 2018 a bod 8 risg wedi'u huwchgyfeirio i'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh). Amlinellwyd manylion y newidiadau i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn chwarter 1.

Pwysleisiodd aelod bwysigrwydd diogelwch ar y we a llywodraethu gwybodaeth. Nododd y Pennaeth Cyllid fod y Prif Swyddog Digidol ar y rhaglen waith ac y byddai'n cael ei wahodd i ddod i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2018. Byddai'r rhaglen waith yn cael ei hystyried o dan eitem agenda 12.

PENDERFYNWYD – y dylai'r Pwyllgor Archwilio nodi gweithgarwch rheoli risgiau a chynnwys y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

34 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD GWEITHGARWCH/ADRODDIAD SAC

Ni chyflwynwyd adroddiad cynnydd yn y cyfarfod.

35 : TECLYN OLRHAIN SAC/ASTUDIAETHAU ERAILL

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid ddiweddariad ar lafar am declyn olrhain SAC.

36 : TREASURY MANAGEMENT PERFORMANCE REPORT

The Committee received the Treasury Management Performance Report and a position statement as at 31 August 2018 for information.

RESOLVED – That the report be noted.

37 : ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys cyn ei gyflwyno i'r Cyngor ar 27 Medi 2018. Cafodd pwyntiau allweddol yr adroddiad gan y swyddogion. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y bydd yn ofyniad i'r Cyngor bennu nifer o

ddangosyddion darbodus ar ddechrau'r flwyddyn ar gyfer gwariant cyfalaf a refeniw. Yn ystod 2017/18 ni thorrwyd unrhyw ddangosyddion.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, cadarnhaodd y swyddogion nad oedd arwydd y byddai gofyn i Gaerdydd dalu ei benthyciadau'n llawn mewn un taliad er bod hyn wedi digwydd gyda sawl awdurdod lleol o ran benthyciadau LOBO. Os bydd gofyn i dalu'r benthyciadau hyn mewn un taliad, bydd swyddogion yn trafod hyn ag ymgynghorwyr ac yn y lledaenu unrhyw risg os bydd yn berthnasol gwneud hynny.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod CIPFA yn datblygu mynegai risgiau ynglŷn â'r gweithdrefnau a'r llywodraethu ehangach. Roedd hyn mewn ymateb i broblemau wrth reoli'r trysorlys mewn rhai cynghorau.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai 'Brexit' yn cael unrhyw oblygiadau i fuddsoddiadau a ddelir yn yr UE (Gweriniaeth Iwerddon). Nododd y swyddogion na fyddai unrhyw risgiau gan fod buddsoddiadau â'u domisil yn Iwerddon ar ffurf sterling a gellid eu dychwelyd y diwrnod canlynol.

Gofynnodd yr aelodau a fwriedid cael cyfraddau gwell ar fuddsoddiadau sydd i ddod i ben yn fuan. Nododd y swyddogion mai'r strategaeth bresennol oedd cadw buddsoddiadau'n fyr. Bydd angen arian ar yr awdurdod i leihau'r angen am fenthyciadau. Yn ogystal, mae awdurdodau lleol yn derbyn cyfraddau llai ffafriol na buddsoddwyr preifat. Bydd angen arian eleni oherwydd ymrwymiadau a wnaed fel rhan o broject y Fargen Ddinesig ac felly, er mwyn galluogi sicrwydd, penderfynwyd peidio â buddsoddi y tu hwnt i'r flwyddyn gyntaf o ran arian i'r Fargen Ddinesig.

Gofynnodd aelodau a oedd y Cyngor yn agos at uchafswm y Gofyniad Ariannu Cyfalaf a ganiateir. Nododd y swyddogion ei bod yn ofyniad i'r Cyngor bennu terfyn benthyca fforddiadwy. Nid oes unrhyw uchafswm a ganiateir. Mae'r Swyddog Adran 151 yn pwysleisio'r hyn y gall awdurdod ei fforddio fel rhan o'r gyllideb.

PENDERFYNWYD – y dylid nodi Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2017-18.

38 : DIWEDDARIAD AM GYNNYDD Y TÎM ARCHWILIO 2018/19

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau gan y Pennaeth Cyllid fod ymarfer recriwtio diweddar wedi arwain at benodi Rheolwr Archwilio newydd. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y disgwylir i'r Rheolwr Archwilio newydd ddechrau yn ei swydd ym mis Hydref 2018.

Aeth y Pennaeth Cyllid ymlaen i gyflwyno'r Adroddiad am Gynnydd yr Archwiliad Mewnol fel yr oedd ym mis Awst 2018, gan ganolbwyntio ar waith y Tîm Archwilio Mewnol, gwybodaeth am berfformiad a'r argymhellion coch a choch/oren sydd wedi'u cwblhau a'r rhai nad ydynt wedi'u cwblhau.

Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod 4 archwiliwr wedi cael ei cefnogi i ennill cymhwyster y Sefydliad Archwilwyr Mewnol.

PENDERFYNWYD – y dylai'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

39 : DIWEDDARIAD AM GYNNYDD Y TÎM YMCHWILIADAU 2018/19

PENDERFYNWYD – y dylid nodi Adroddiad Cynnydd y Tîm Ymchwiliadau.

40 : CAMAU SYDD ETO I'W CYFLAWNI

PENDERFYNWYD – y dylid nodi'r camau sydd eto i'w cyflawni.

41 : DIWEDDARIAD AM Y RHAGLEN WAITH

Ystyriodd y Pwyllgor ei Raglen Waith. Roedd yr aelodau o'r farn y byddai'n fuddiol i dderbyn sesiwn friffio am strategaeth 'Brexit' yr awdurdod.

42 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

43 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 13 Tachwedd 2018.

The meeting terminated at 4.25 pm